Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 9 Gorffennaf 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Rosie Hughes, Heather Williams ac Ifan Wyn.

10. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Stephen Beach a Robert Owen-Ellis.

11. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

12. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 yn gywir.

13. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

14. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/0289 – Crown Cottage, 13 Stryd y Ffynnon, Rhuthun – Newid defnydd o salon harddwch annedd - Caniatawyd
02/2018/0435 – Tŷ'n y Minffordd, Llanfwrog, Rhuthun – Newid defnydd tir a ffurfio *manège* – Caniatawyd
02/2018/0306 – 97 Stryd Mwrog, Rhuthun – Adeiladu estyniad i'r annedd – Caniatawyd
02/2018/0449 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Manylion offer echdynnu a gyflwynwyd yn unol ag amod 4 caniatâd cynllunio 02/2016/0526/PF – Cymeradwywyd
02/2018/0496 – Hafan Deg, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Manylion wynebau'r waliau allanol a'r toeon a gyflwynwyd yn unol ag amod 5 caniatâd cynllunio 02/2017/1113/PF – Cymeradwywyd
02/2018/0470 – Bryn Tawel, 7 Fron Haul, Rhuthun – Torri un goeden castanwydden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed – Caniatawyd
02/2018/0461 – Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun – Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer da byw – Gwrthodwyd
02/2018/0543 – 42 Parc y Castell, Rhuthun – Diwygiad i gynyddu maint y dormer ôl i'r estyniad a gyflwynwyd yng nghyswllt 02/2013/1529 (diwygiad amherthnasol) - Cymeradwywyd

15. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0558 – 7 Stryd y Ffynnon (siop elusen Sue Ryder), Rhuthun
Arddangos 1 arwydd ffasgia ac 1 arwydd crog (caniatâd Adeilad Rhestredig)

02/2017/1190 – Crafnant, Ffordd Llanfair, Rhuthun
Adeiladu annedd newydd a gwaith cysylltiedig

02/2018/0633 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun
Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 02/2016/0492 i ganiatáu gosod un uned ystafell ddosbarth dros dro am ddwy flynedd ychwanegol.

02/2018/0617 – Gwesty Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun
Torri dwy goeden ffawydden T1 a T2 sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed 25 (1963) y cyn Gyngor Sir Ddinbych.

16. ARCHWILIAD AC ASESIAD GWAGLEOEDD AGORED SIR DDINBYCH – CASGLIADAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr adroddiad drafft terfynol, yn benodol y rhan am Rhuthun.
PENDERFYNWYD: *nodi'r adroddiad.*

17. COFFÁU CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Esboniodd y Cynghorydd Rosie Hughes nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth, ond ei bod wedi cysylltu â'r Lleng Brydeinig yn uniongyrchol a dylai gael rhagor o fanylion yn fuan. Cyfeiriwyd at gyfarfod anffurfiol i'w gynnal yn Y Clwystai, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun, i drafod nodi 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Mawr nos Fawrth, 28 Awst am 7.30pm

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Cynghorydd Rosie Hughes a'r Cynghorydd Anne Roberts yn mynychu'r cyfarfod uchod ar ran y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Amwynderau yn ôl eu trefn, gyda chroeso i aelodau eraill fynd i'r cyfarfod os ydynt yn dymuno.*

18. DYFODOL RHUTHUN – DIWEDDARIAD

Roedd y Cynghorydd Gavin Harris wedi dosbarthu copi drafft o Dyfodol Rhuthun 2 gan Matthew Coombs yn dilyn wythnos Dyfodol Rhuthun. Gofynnodd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ar y cynnwys a delweddau'r fersiwn ddrafft erbyn dydd Gwener, 13 Gorffennaf, ac y byddai'r eitem yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD: *y byddai'r aelodau'n ystyried yr adroddiad drafft ac yn anfon unrhyw sylwadau trwy e-bost at y Cynghorydd Harris erbyn dydd Gwener, 13 Gorffennaf, ac ystyried yr eitem yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Gorffennaf.*

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 10 Medi 2018 am 6:45pm.*